

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
1 Chwefror 2021 arlein, trwy zoom am 8 o'r gloch
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
1 February 2021, online through Zoom at 8pm

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Presennol/Present

Cyng Daniel Thomas (Gadair/*Chair*), Gwenfair Owen, Beryl Evans, Gwilym Evans, Emyr Jones, John Evans, Eirian Jones, Myrddin James a Cyng/Cllr Rhodri Evans. PCSO John Evans (trwy'r ffôn)

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng/Cllr Dafydd Morse & Cyng/Cllr Rhian Turner

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / *No one*

Adroddiad yr Heddlu / Police Report

Derbyniwyd adroddiad ar lafar drwy'r ffôn gan yr heddlu, derbyniwyd cadarnhad bod y ffordd lawr rhiw Gaerlwyd yn mynd i gael ei ail wynebu rhywbryd yn y dyfodol. Soniwyd am y nifer o sgamiau a fu'n digwydd dros y cyfnod clo a bod angen i'r gymuned i fod yn ofalus. Terfynwyd galwad efo'r heddlu yn dilyn ei adroddiad.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng John Evans ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Evans.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Cyng Rhodri Evans, trwy law Alison Healey, nad oedd TPO ar y goeden ywen ac mi fyddai'n iawn i trimio'r goeden ychydig ond dim i'w thorri lawr. Cynnig y gwaith i Gareth Cefngarn, Llangeitho yn gyntaf a wedyn Lampeter Tree Surgeons. Cytunwyd i ofyn i Crwbin Quarries gario ymlaen efo'r gwaith a chysylltu efo CADW i weld a oes modd derbyn grant ychwanegol oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio.
- Dim i adrodd ar contract BT a'r cynllun mabwysiadu'r ciosg yn Rhydypanyd.

Gohebiaeth/Correspondence

- Llythyr wedi'u dderbyn oddi wrth Cylch Meithrin Llangeitho yn ceisio am gymorth ariannol, cytunwyd i drafod y ceisiadau i gyd ym mis Mehefin ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng John Evans. Clerc i hysbysebu am geisiadau ym mis Ebrill.

Cyfrifon/Accounts

- Cyflog y clerch (misoedd Rhagfyr/Ionawr) £223.34
- Zoom £14.39
- Gareth Jones (archwiliwr mewnol) £40.00

Cytunwyd ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Beryl Evans i dalu'r uchod.

Cyngor Sir Ceredigion County Council

- Clerc wedi gorfod cysylltu a Chyngor Sir Ceredigion am y pryder am bont rhwng Parchrhydderch a Capel Betws Leucu
- Soniwyd am y grantiau oedd ar gael oherwydd Covid 19.

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Dim i'w adrodd.

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Soniwyd bod gwasanaeth casglu sbwriel dros y misoedd diwethaf ddim wedi bod yn foddhaol o gwbl, soniwyd bod y nifer o staff yn gorfod arall gyfeirio i ddsbarthu'r grit oddi amgylch Ceredigion.
- Angen gwasanaeth y sweeper yn plwyf Llanbadarn Odwyn.
- Angen sôn wrth Mr Brian Thomas y pwysigrwydd o ddodi'r grit melyn lawr ar rhif Gaerlwyd.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar nos Lun 1af o Fawrth 2021 am 8 o'r gloch trwy Zoom.